**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie Morgan AS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

**16 Ionawr 2024**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("Deddf 2016") yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'n rhoi ystod o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a mathau eraill o is-ddeddfwriaeth.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â *Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024* ("Rheoliadau 2024") sy'n creu'r rheoliadau a fydd yn gosod gofynion ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol, gan gynnwys gofynion yn ymwneud â safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 er mwyn cynnwys cyfeiriad at *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig*.

Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gosod gerbron y Senedd o dan y weithdrefn gadarnhaol a byddant yn dod i rym ar 29 Chwefror 2024.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n golygu bod modd gwneud y Rheoliadau hyn wedi eu cynnwys mewn sawl adran o Ddeddf 2016, fel y dyfynnir isod:

- Adran 10 – sy'n cynnwys y gofynion i gyflwyno datganiad blynyddol.
- Adran 21(5) – sy'n ymwneud â dynodi unigolyn cyfrifol er nad yw'r gofynion cymhwystra wedi eu bodloni.
- Adran 27 – sy'n golygu bod modd gosod gofynion ar ddarparwr gwasanaeth rheoleiddiedig.
- Adran 28 – sy'n golygu bod modd gosod gofynion ar unigolyn cyfrifol gwasanaeth rheoleiddiedig.
- Adran 30 – sy'n ymwneud â darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu datod.
- Adran 31 – sy'n ymdrin â darparwyr gwasanaethau sydd wedi marw.
- Adran 45 – sy'n ymdrin â methiant gan ddarparwr gwasanaethau i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau.
- Adran 46 – sy'n ymdrin â methiant gan unigolyn cyfrifol i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau.
- Adran 52 – sy'n galluogi system o hysbysiadau cosb ac i droseddau gael eu rhagnodi.

Mae’r Rheoliadau hyn yn dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben Rheoliadau 2024 yw gosod y safonau ansawdd y bydd *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu yn eu herbyn o dan Ddeddf 2016. Bydd y Rheoliadau hyn yn helpu i sicrhau bod yr unigolion sy'n mynychu'r *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* ac y mae angen gofal a chymorth arnynt yn cael gofal o safon uchel. Mae'r dull gweithredu arfaethedig yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* lle mae plant yn aros yn yr ysgol dros nos am rhwng un a phedair noson yr wythnos ond eu bod yn byw gyda'u rhieni, a gwasanaethau cartrefi gofal lle mae oedolion neu blant yn preswylio'n llawn amser.

Bydd Rheoliadau 2024 yn disodli'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl a gafodd eu gwneud o dan adran 23(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Nid oes modd gorfodi'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac maent yn canolbwyntio ar sicrhau safon ofynnol nad yw'n gyson â'r cyfeiriad polisi ehangach ar gyfer rheoleiddio ac arolygu a sefydlwyd o dan Ddeddf 2016, ac a weithredir mewn rheoliadau a ddatblygwyd ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig eraill o dan Ddeddf 2016, megis Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol 2017")**.**

Diben Rheoliadau 2024 yw diwygio'r rheoliadau o sylwedd sy'n ymwneud â datganiadau blynyddol a hysbysiadau cosb ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig er mwyn cynnwys *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*.

Y prif agweddau ar Reoliadau 2024 yw:

4.1 *Datganiadau blynyddol*

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 yn nodi'r gofynion o ran gwybodaeth ychwanegol sydd i'w chynnwys mewn datganiad blynyddol darparwr. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am staffio, hyfforddiant, cynllunio'r gweithlu, darparu gwasanaethau a gwybodaeth ychwanegol lle mae'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol y bydd y datganiad yn cael ei gyflwyno ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno'r datganiad o fewn 56 diwrnod ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Mae Rheoliadau 2024 yn ailadrodd y gofynion sydd wedi eu gosod ar wasanaethau rheoleiddiedig eraill mewn rheoliadau.

4.2 *Unigolion cyfrifol*

Mae adran 21(5) o Ddeddf 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r amgylchiadau lle maen nhw, neu AGC yn ymarferol, sef y rheoleiddiwr gwasanaethau (yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth) yn gallu dynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol er nad yw gofynion cymhwystra Deddf 2016 wedi eu bodloni. Y diben yw sicrhau bod gwasanaeth sy'n cael ei gynnal yn fedrus fel

arall yn gallu parhau heb ganslo ei gofrestriad yn gyfan gwbl os nad oes neb yn gallu cael ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol. Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru addasu gofynion Deddf 2016 i'r graddau y maent yn ymwneud ag unigolyn cyfrifol sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 2024 yn ailadrodd y gofynion yn Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol 2017.

4.3 *Rheoliadau ynghylch gwasanaethau rheoleiddiedig*

Mae adran 27 o Ddeddf 2016 yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod gofynion ar ddarparwr gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig, gan gynnwys y gofynion yn ymwneud â safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu gan ddarparwr gwasanaeth.

Mae Rheoliadau 2024 yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â llywodraethu, addasrwydd y gwasanaeth, gwybodaeth am y gwasanaeth, yr amgylchedd, staffio, hyfforddiant staff a diogelu. Wrth wneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid ystyried pwysigrwydd llesiant unrhyw unigolyn a fydd yn derbyn gofal a chymorth.

4.4 *Rheoliadau ynghylch unigolion cyfrifol*

Mae adran 28 o Ddeddf 2016 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod gofynion ar unigolion cyfrifol dynodedig. Rhaid i unigolion cyfrifol fodloni'r meini prawf cymhwystra ac addasrwydd a ragnodir yn adran 21 o Ddeddf 2016.

Mae Rheoliadau 2024 yn gosod gofynion ar unigolion cyfrifol mewn perthynas â chydymffurfedd, ansawdd a goruchwyliaeth y gwasanaeth, a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol (gan gynnwys penodi rheolwr sydd wedi ei gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru). Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol o leiaf unwaith bob 3 mis. Mae hyn yn ailadrodd y gofynion sy'n cael eu gosod ar wasanaethau rheoleiddiedig eraill o dan Ddeddf 2016.

4.5 *Rheoliadau ynghylch darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu datod*

Mae adran 30 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i "berson a benodir" hysbysu Gweinidogion Cymru, hynny yw AGC yn ymarferol, am ei benodiad os yw darparwr gwasanaeth yn cael ei ddatod. Yn ôl Deddf 2016, mae "person a benodir":

- yn dderbynnydd neu'n dderbynnydd gweinyddol o eiddo darparwr gwasanaeth sy’n gorff corfforaethol neu’n bartneriaeth;
- yn ddatodwr, yn ddatodwr dros dro neu’n weinyddwr i ddarparwr gwasanaeth sy’n gorff corfforaethol neu’n bartneriaeth;
- yn ymddiriedolwr mewn methdaliad i ddarparwr gwasanaeth sy’n unigolyn neu’n bartneriaeth.

Mae Rheoliadau 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i berson a benodir hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, AGC, yn ddi-oed o'i benodiad, ac o fewn 28

diwrnod i'w benodi, hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am ei fwriadau ynghylch gweithrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

4.6 *Rheoliadau ynghylch darparwyr gwasanaethau sydd wedi marw*

Mae adran 31 o Ddeddf 2016 yn ymdrin â gofynion hysbysu ac addasiadau i gymhwyso Rhan 1 o Ddeddf 2016 pan fo darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn wedi marw.

Mae Rheoliadau 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i gynrychiolwyr personol darparwr unigol sydd wedi marw hysbysu Gweinidogion Cymru, hynny yw AGC yn ymarferol, am y farwolaeth. Mae Rheoliadau 2024 yn galluogi cynrychiolwyr personol yr unigolyn i weithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth am gyfnod penodol. Mae hyn yn ailadrodd y gofynion sy'n cael eu gosod ar wasanaethau rheoleiddiedig eraill o dan Ddeddf 2016.

4.7 *Troseddau: Methiant gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau*

Mae adran 45 o Ddeddf 2016 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi bod enghreifftiau penodol o fethu â chydymffurfio â gofynion rheoliadau a wneir o dan adran 27 yn droseddau. Mae adran 46 o Ddeddf 2016 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi bod enghreifftiau penodol o fethu â chydymffurfio â gofynion rheoliadau a wneir o dan adran 28 yn droseddau. Maent yn darparu bod methiant, gan y darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol yn y drefn honno, i gydymffurfio â gofynion penodedig yn Rheoliadau 2024 yn drosedd. Mae amod pellach sy'n gymwys yn achos methiant i gydymffurfio â gofynion penodol. Yn yr achosion hyn, mae'r rheoliad yn darparu nad yw hon ond yn drosedd os yw methu â chydymffurfio yn arwain at wneud unigolion yn agored i niwed y gellir ei osgoi, neu'n agored i risg sylweddol o niwed o'r fath neu'n agored i golli arian neu eiddo o ganlyniad i ddwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi.

Er efallai na fydd methiant i gydymffurfio â gofyniad penodol yn Rheoliadau 2024 yn drosedd, gallai methiant darparwr gwasanaeth i gydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd wedi eu cynnwys mewn Rheoliadau o fewn Rhannau 2 i 12 fod yn sail i ganslo cofrestriad y darparwr gwasanaeth o dan adran 15 o Ddeddf 2016; a gallai methiant unigolyn cyfrifol i gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion a geir mewn Rheoliadau o fewn Rhannau 13 i 17 fod yn sail i ganslo dynodiad yr unigolyn cyfrifol o dan adran 22 o Ddeddf 2016. Mae Rheoliadau 2024 yn ailadrodd y gofynion sydd wedi eu gosod ar wasanaethau rheoleiddiedig eraill mewn rheoliadau.

4.8 *Hysbysiadau cosb*

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 yn nodi manylion gweithredol y system hysbysiadau cosb a'r troseddau y gellir eu rhyddhau os bydd y darparwr gwasanaeth neu'r unigolyn cyfrifol (fel y bo'n gymwys) yn talu swm sy'n daladwy o dan hysbysiad cosb. Mae Rheoliadau 2024 yn ailadrodd y trefniadau ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig eraill mewn rheoliadau.

## 5. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos rhwng 15 Mai 2023 a 6 Awst 2023 ar y gyfres o reoliadau drafft sy'n ffurfio'r fframwaith rheoleiddio a’r canllawiau statudol cysylltiedig ar gyfer *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*. Cafodd rhanddeiliaid allweddol wybod am yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr ysgolion arbennig preswyl presennol, awdurdodau lleol, Comisiynydd Plant Cymru, AGC, Estyn, a Gofal Cymdeithasol Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gellir dod o hyd i'r adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yma.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024").

## 6. Yr opsiynau

Ystyriwyd dau opsiwn yn y dadansoddiad o'r costau, y manteision a'r risgiau ar gyfer Rheoliadau 2024. Yr opsiynau yw:

**6.1 Opsiwn un** Gwneud dim:

- Ni fydd unrhyw reoliadau annibynnol newydd ar gyfer rheoleiddio safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu gan ddarparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*.

- Ni fydd unrhyw ddiwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017. O dan yr opsiwn hwn, bydd yn ofynnol o hyd i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig* lunio datganiad blynyddol ond bydd y cynnwys yn gyfyngedig i'r wybodaeth a nodir yng ngeiriau Deddf 2016 (adran 10(2)(a)(i)-(iv) a 10(2)(b)):
  - y gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i'w darparu;
  - y mannau y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaeth ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy;
  - enw'r unigolyn cyfrifol ar gyfer pob man;
  - dyddiad y cofrestriad;
  - manylion unrhyw amodau eraill a osodir ar gofrestriad y darparwr gwasanaeth;
  - manylion am nifer y personau y mae gofal a chymorth wedi eu darparu iddynt yn ystod y flwyddyn ar gyfer pob gwasanaeth;
  - datganiad sy'n nodi sut y mae'r darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 27(1) sy'n pennu safon y gofal a'r cymorth y mae rhaid i ddarparwr gwasanaeth ei darparu.

- Ni fydd unrhyw ddiwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 i'w gwneud yn gymwys i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig.*

<u>6.1.1 Costau</u>

- Safon y gofal a'r cymorth

Gan mai opsiwn "gwneud dim" yw hwn, nid oes unrhyw gostau neu arbedion ychwanegol wedi eu nodi ar gyfer Llywodraeth Cymru, AGC na'r darparwyr gwasanaethau.

- Datganiadau blynyddol

Er mai dyma'r opsiwn sylfaenol, dylid nodi y byddai costau i Lywodraeth Cymru, yn benodol ar gyfer AGC fel y rheoleiddiwr gwasanaethau, a darparwyr gwasanaethau o dan yr opsiwn hwn. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nid costau ychwanegol yw'r rhain, fodd bynnag, maent yn cael eu crynhoi isod er mwyn gallu cymharu â'r opsiwn arall. Bydd cost i AGC wrth ehangu'r system ar-lein fel bod modd i ddarparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* gyflwyno datganiadau blynyddol byrrach. Ar hyn o bryd, mae'r holl ddarparwyr gwasanaethau presennol yn darparu gwasanaethau rheoleiddiedig. Byddai angen addasu'r system ar-lein er mwyn galluogi'r darparwr gwasanaeth i gwblhau fersiynau llawn a byrrach o'r datganiad blynyddol ar gyfer y gwahanol wasanaethau.

Bach iawn fyddai'r costau i ddarparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* o ran paratoi datganiad blynyddol, gan fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth eisoes ar gael o'r wybodaeth gofrestru a gedwir ar system AGC. Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau gasglu a chyflwyno gwybodaeth am nifer y personau y mae gofal a chymorth wedi eu darparu iddynt yn ystod y flwyddyn ar gyfer pob gwasanaeth. Bydd hefyd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau lunio a chynnwys datganiad sy'n nodi sut y maent wedi cydymffurfio â'r gofynion mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27(1) o Ddeddf 2016.

Bydd cost o ran amser staff i ddarparwyr gwasanaethau er mwyn cwblhau'r datganiad blynyddol sy'n ofynnol o dan yr opsiwn hwn, a heb ffurflen ragnodedig disgwylir y bydd hyn yn cymryd mwy o amser nag opsiwn dau. Fodd bynnag, mae'n anodd asesu union gost yr opsiwn hwn i ddarparwyr gwasanaethau, am y bydd yn amrywio gan ddibynnu ar ba mor fawr yw'r darparwr gwasanaeth yn ogystal â'r arferion a'r prosesau sefydliadol sydd ar waith ganddo ar hyn o bryd.

- Hysbysiadau cosb

Gan mai opsiwn "gwneud dim" yw hwn, nid oes unrhyw gostau neu arbedion ychwanegol wedi eu nodi ar gyfer Llywodraeth Cymru, AGC na'r darparwyr gwasanaethau.

<u>6.1.2 Risgiau</u>

- Safon y gofal a'r cymorth

Gan mai opsiwn "gwneud dim" yw hwn, nodwyd sawl risg. Bydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl yn cael eu cadw, ac ni fydd gan AGC y pwerau gorfodi i ymdrin â methiant gan ddarparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol dynodedig. Bydd y darparwyr gwasanaethau yn parhau i gael eu harolygu yn erbyn safon ofynnol nad yw'n gyson â'r cyfeiriad polisi ehangach ar reoleiddio ac arolygu a sefydlwyd o dan Ddeddf 2016. Ni fydd yr opsiwn hwn yn ymateb yn effeithiol i argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2022), a gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol ar gyfer ansawdd parhaus y gwasanaethau a'r canlyniadau i unigolion sy'n mynychu'r gwasanaethau.

- Datganiadau blynyddol

Bydd yr opsiwn hwn yn creu risg o beidio â gwireddu'r bwriad a nodwyd yn Neddf 2016, sef sicrhau bod gwybodaeth gywir, berthnasol a chymaradwy ar gael i'r cyhoedd ar gyfer yr holl wasanaethau. Ni fydd yn ofynnol i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig* ddarparu gwybodaeth am y gweithlu na hyfforddiant na gwybodaeth arall am y gwasanaeth am na fydd unrhyw wybodaeth o'r fath wedi ei rhagnodi. Cyfyng iawn fydd yr wybodaeth a ddarperir, ac ni fydd yn rhoi dealltwriaeth ddigonol o ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Ni fydd unrhyw ofyniad o ran fformat y datganiad blynyddol nac o ran y terfyn amser y dylid cyflwyno'r datganiad yn unol ag ef. Bydd hyn yn anoddach i ddarparwyr gwasanaethau ac i AGC ei ddefnyddio.

Bydd yr opsiwn hwn yn creu anghysondeb rhwng y gofynion a osodir ar wasanaethau rheoleiddiedig presennol a'r gofynion a osodir ar *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig*, a gallai hyn fod yn drafferthus i'r cyhoedd ac effeithio ar enw da Llywodraeth Cymru.

- Hysbysiadau cosb

Drwy wneud dim a sicrhau nad yw'r Rheoliadau yn gymwys i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig*, ni fydd AGC yn cael y pwerau llawn i fynd i'r afael â methiant gan ddarparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol i gydymffurfio â'r gofynion a osodir arnynt o dan Ddeddf 2016.

Mae risg na fydd darparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol sy'n ddiegwyddor ac sy'n methu â chydymffurfio â'r Rheoliadau yn barhaus yn gwneud y gwelliannau sydd eu hangen am na fyddai'r dulliau gorfodi yn ddigonol i'w hatal rhag diffyg cydymffurfedd. Bydd yr opsiwn hwn yn creu anghysondeb rhwng y gwasanaethau rheoleiddiedig presennol a'r *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* o ran y pwerau gorfodi sydd ar gael i'r rheoleiddiwr a gallai hyn fod yn drafferthus i'r cyhoedd.

Bydd yr opsiwn hwn yn creu anghysondeb rhwng y gwasanaethau rheoleiddiedig presennol a'r *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* o ran canlyniadau torri'r gofynion mewn rheoliadau a thrwy hynny achosi annhegwch. Gallai hyn fod yn drafferthus i'r cyhoedd a darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig eraill ac mae'n bosibl y bydd yn effeithio ar enw da Llywodraeth Cymru.

<u>6.1.3 Manteision</u>

- Safon y gofal a'r cymorth

Gan mai opsiwn "gwneud dim" yw hwn, ni nodwyd unrhyw fanteision sylweddol.

- Datganiadau blynyddol

Ni nodwyd unrhyw fanteision sylweddol mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

- Hysbysiadau cosb

Byddai arbedion cost i rai darparwyr gwasanaethau drwy beidio â gorfod talu dirwyon am ddiffyg cydymffurfedd â gofynion penodol.

**6.2 Opsiwn dau:** Gwneud Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024, sef:

- Creu rheoliadau annibynnol newydd i reoleiddio safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu gan ddarparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* ac unigolion cyfrifol dynodedig, fel gwasanaeth rheoleiddiedig sy'n seiliedig ar Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

- Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 i'w gwneud yn gymwys i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig*. Bydd hyn yn golygu y caiff yr wybodaeth datganiad blynyddol ganlynol ei darparu, ar ben yr wybodaeth sy'n ofynnol drwy eiriau Deddf 2016 (o dan adran 10(2)(a)(i)-(iv) a 10(2)(b)):

    - disgrifiad o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion hyfforddiant staff y *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*;
    - gwybodaeth am waith cynllunio'r gweithlu a wnaed, yn benodol disgrifiad o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer recriwtio a chadw staff a gyflogir gan y *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*;
    - gwybodaeth ychwanegol sydd i'w chynnwys yn y datganiad blynyddol, yn benodol manylion cyswllt, trefniadau staffio a gwybodaeth am y gwasanaeth.

  Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol ddefnyddio fformat penodol a chael ei gyflwyno ar-lein ac yn unol â therfyn amser penodol, sef o fewn 56 diwrnod i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

- Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 i'w gwneud yn gymwys i wasanaethau preswyl ysgolion arbennig. Bydd hyn yn golygu y bydd y system o hysbysiadau cosb a throseddau rhagnodedig y gellir cyflwyno hysbysiad cosb ar eu cyfer yn gymwys i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig*.

<u>6.2.1 Costau</u>

- Safon y gofal a'r cymorth

Bydd ychwanegu'r pedair ysgol arbennig preswyl sydd eisoes yn bodoli fel *gwasanaethau preswyl ysgol arbennig* a hynny fel gwasanaethau rheoleiddiedig yn cynyddu'r monitro a'r arolygu gan AGC. Yr amcangyfrif o'r

gost flynyddol ar sail ffigurau 2023-24 yw £15,000, sy'n cyfateb i arolygydd 0.25 ychwanegol. Bydd hon yn gost gylchol.

Fe fydd costau ariannol ac amser i’r sector. Bydd hyn yn cynnwys cost cofrestru'r rheolwr a'r staff gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a sicrhau bod yr holl staff yn bodloni'r gofynion cymwysterau, neu'n gweithio tuag atynt. Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol dynodedig oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaeth effeithiol yn cael ei ddarparu sy'n cydymffurfio â'r gofynion. Fel rhan o'r gwaith goruchwylio, rhaid i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol o leiaf unwaith bob 3 mis i gyfarfod â staff ac unigolion sy'n mynychu'r gwasanaeth.

Bydd yn ofynnol i'r *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* presennol adolygu polisïau a gweithdrefnau cyfredol er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r gofynion yn y rheoliadau. Hefyd, bydd angen iddynt sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau ar waith i gydymffurfio â'r gofynion hysbysu a chadw cofnodion. Er nad yw'n bosibl meintioli'r costau ariannol nac amser gan fod pob sefyllfa *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig* yn wahanol, mae'r holl ddarparwyr presennol yn awdurdodau lleol gyda gwasanaethau rheoleiddiedig eraill ac yn gyfarwydd â'r gofynion.

- Datganiadau blynyddol

Bydd cost i Lywodraeth Cymru, yn benodol ar gyfer AGC fel y rheoleiddiwr gwasanaethau, wrth ehangu'r system ar-lein fel bod modd i ddarparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* gyflwyno datganiadau blynyddol. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nid costau ychwanegol yw'r rhain, fodd bynnag, maent yn cael eu crynhoi isod er mwyn gallu cymharu â'r opsiwn arall. Bydd cost i AGC wrth ehangu'r system ar-lein fel bod modd i ddarparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* gyflwyno datganiadau blynyddol. Bydd y gallu i bennu'r terfyn amser i ddarparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* ddychwelyd ffurflen y datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn cynorthwyo AGC i flaengynllunio rhaglenni gwaith pwrpasol.

Bydd y broses o gwblhau'r datganiad blynyddol sydd ei angen o dan yr opsiwn hwn yn golygu cost i ddarparwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, drwy ehangu'r system ar-lein bresennol, bydd y rhan fwyaf o'r ffurflen eisoes yn cynnwys yr wybodaeth gofrestru, ac fe'i cwblheir drwy borth ar-lein. Mae rhagnodi'r wybodaeth sydd i'w darparu a'r ffurflen sydd i'w chwblhau yn sefydlu system effeithlon ac effeithiol, gan leihau goddrychedd ac amwysedd. Amcangyfrifir y bydd angen tua 11 awr o amser staff y darparwr i gwblhau'r ffurflen ar-lein. Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yn darparu ffigurau ar enillion fesul awr ar gyfer gwahanol alwedigaethau yn y data arolwg. Felly, mae costau cwblhau'r ffurflen ar-lein yn debygol o fod rhwng £230 a £390.

| Galwedigaeth | Cyflog gros fesul awr (Canolrif Cymru 2022) | Cyflog gros fesul awr, gan gynnwys argostau (30%) | Cost cwblhau datganiad blynyddol (gan amcangyfrif ei fod yn cymryd 11 |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | awr, wedi ei dalgrynnu i'r £10 agosaf) |
| Rheolwyr a Chyfarwyddwyr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 27.15 | 35.30 | 390 |
| Rheolwyr a Pherchnogion ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 20.07 | 26.09 | 290 |
| Galwedigaethau gweinyddol – Rheolwyr a goruchwylwyr swyddfa | 15.88 | 20.64 | 230 |

Enillion ac oriau a weithiwyd, rhanbarth yn ôl galwedigaeth a SOC pedwar digid: ASHE Tabl 15 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

- Hysbysiadau cosb

O dan yr opsiwn hwn, byddai costau i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol sy'n cael hysbysiadau cosb am ddiffyg cydymffurfedd â gofynion penodol. Mae'r symiau sy'n daladwy wedi eu nodi yn y rheoliadau presennol sy'n gymwys i wasanaethau rheoleiddiedig eraill. Mae adran 52 o Ddeddf 2016 yn cyfyngu'r swm sy'n daladwy i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol. Ar hyn o bryd, swm lefel 4 ar y raddfa safonol yw £2,500.

Byddai AGC yn parhau i ddefnyddio ei dull cymesur presennol o fesurau gorfodi wrth roi cynllun hysbysiadau cosb ar waith. Byddai amlder cyhoeddi dirwyon o'r fath yn dibynnu ar nifer y toriadau. Gellir dadlau y bydd cyflwyno cynllun hysbysiadau cosb i gynnwys *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* yn lleihau nifer yr erlyniadau gan AGC, gan helpu i arbed amser a chostau cyfreithiol o ganlyniad. Yn yr un modd, gall y darparwr gwasanaeth neu'r unigolyn cyfrifol ddewis talu'r gosb yn hytrach na mynd drwy'r broses hir o achos troseddol. Mae ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder wedi ei llenwi. https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A45524428/document/versions/published

6.2.2 Risgiau

- Safon y gofal a'r cymorth

O dan yr opsiwn hwn, mae risg fach na fydd y *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* presennol yn gallu bodloni'r holl ofynion rheoleiddio. Er mwyn lliniaru'r risg hon, cynhaliwyd sawl cyfarfod rhanddeiliaid i drafod y dull rheoleiddio arfaethedig ar sail y gyfres o reoliadau a'r canllawiau statudol sy'n ffurfio'r fframwaith rheoleiddio o dan Ddeddf 2016. Mae cynrychiolwyr o AGC a Gofal

Cymdeithasol Cymru wedi mynychu cyfarfodydd rhanddeiliaid hefyd er mwyn darparu cyngor ac arweiniad, a fydd yn parhau i fod ar gael. Yn ogystal, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid fe gawsom wybodaeth ddefnyddiol am sut mae'r gwasanaethau yn gweithredu yn ymarferol. Maent eisoes wedi mabwysiadu llawer o'r gofynion arfaethedig, ond mae hyn yn amrywio rhwng gwasanaethau unigol.

- Datganiadau blynyddol

Ni nodwyd unrhyw risgiau sylweddol; fodd bynnag, mae risg fach y gallai problemau technegol fod yn gysylltiedig â chwblhau ffurflenni blynyddol. Er mwyn lliniaru hyn, bydd cymorth TGCh ar gael gan AGC.

- Hysbysiadau cosb

Mae risg y gallai darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol herio'r hysbysiadau cosb a gyflwynir a fyddai'n arwain at AGC yn gorfod dwyn achosion, sy'n gostus ac yn cymryd llawer o amser. Caiff y risg ei lliniaru drwy lunio canllawiau gweithredol a thrwy ddarparu sesiynau codi ymwybyddiaeth ynghylch sut y caiff y cynllun ei weithredu yn ymarferol. Byddai'r canllawiau hyn yn nodi'r amgylchiadau y byddai'n briodol cyflwyno hysbysiad oddi tanynt – er enghraifft, pe bai lefelau cyson o ddiffyg cydymffurfedd â rheoliad penodol i'w gweld a phe nad oedd y mater wedi cael ei ddatrys o fewn cyfnod penodol.

<u>6.2.3 Manteision</u>

- Safon y gofal a'r cymorth

Bydd y dull gweithredu arfaethedig yn dod ag elfen breswyl ysgolion arbennig preswyl i gwmpas rheoleiddio o dan Ddeddf 2016. Bydd gofyn i ddarparwyr gwasanaethau fodloni'r gofynion a nodir mewn rheoliadau mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch y gofal a'r cymorth a ddarperir a chanolbwyntio ar les a chanlyniadau'r unigolyn. Mae’r gofynion hyn yn cynnwys addasrwydd y gwasanaeth, yr amgylchedd, staffio, hyfforddiant staff a diogelu. Bydd gofyn i unigolion cyfrifol fodloni'r gofynion a nodir mewn rheoliadau i sicrhau goruchwyliaeth a rheolaeth effeithiol o'r gwasanaeth, gan gynnwys y ddyletswydd i benodi rheolwr. Bydd y Rheoliadau yn rhagnodi pa achosion o dorri'r gofynion fydd yn cael eu trin fel troseddau. Bydd y gwasanaethau yn cael eu harolygu gan AGC. Bydd gan y rheoleiddiwr bwerau gorfodi o dan y fframwaith rheoleiddio.

- Datganiadau blynyddol

Drwy roi cyfle i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig* gwblhau datganiad blynyddol, gan gynnwys yr wybodaeth ragnodedig ychwanegol, bydd modd gwireddu'r bwriad a nodwyd yn Neddf 2016, sef sicrhau bod gwybodaeth gywir, berthnasol a chymaradwy am yr holl wasanaethau rheoleiddiedig ar gael i'r cyhoedd. Bydd yr wybodaeth hefyd yn rhoi lefel uwch o ddealltwriaeth o ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r opsiwn hwn yn helpu i sicrhau ffordd

gyson o weithio ymhlith yr holl wasanaethau rheoleiddiedig, gan gynnwys y gallu i bennu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r datganiad blynyddol, a thrwy ragnodi'r ffurflen sydd i'w chwblhau. Bydd hyn yn helpu'r cyhoedd ac AGC i gymharu gwybodaeth ymhlith gwasanaethau.

- Hysbysiadau cosb

Drwy ehangu'r Rheoliadau fel bod y cynllun hysbysiadau cosb yn gymwys i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig*, bydd AGC yn cael rhychwant llawn o bwerau i'w defnyddio i fynd i'r afael ag achosion o dorri rheoliadau. Mewn amgylchiadau priodol, gall AGC ddewis rhoi hysbysiad cosb sy'n anfon neges glir at ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol sy'n methu â chydymffurfio â'u dyletswyddau. Mae'r opsiwn hwn yn helpu i sicrhau ffordd gyson o weithredu ymhlith yr holl wasanaethau rheoleiddiedig.

## 7. Casgliadau

Ar ôl dadansoddi costau, risgiau a manteision pob opsiwn, yr opsiwn a ffefrir yw **Opsiwn 2 – Gwneud, sef:**

- **Creu rheoliadau annibynnol newydd i reoleiddio safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu gan ddarparwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig ac unigolion cyfrifol dynodedig, fel gwasanaeth rheoleiddiedig sy'n seiliedig ar Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.**

- **Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 i'w gwneud yn gymwys i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig*. Bydd hyn yn golygu y caiff yr wybodaeth datganiad blynyddol ganlynol ei darparu, ar ben yr wybodaeth sy'n ofynnol drwy eiriau Deddf 2016 (o dan adran 10(2)(a)(i)-(iv) a 10(2)(b)):**

    - **disgrifiad o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion hyfforddiant staff y *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*;**
    - **gwybodaeth am waith cynllunio'r gweithlu a wnaed, yn benodol disgrifiad o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer recriwtio a chadw staff a gyflogir gan y *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*;**
    - **gwybodaeth ychwanegol sydd i'w chynnwys yn y datganiad blynyddol, yn benodol manylion cyswllt, trefniadau staffio a gwybodaeth am y gwasanaeth.**

    **Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol ddefnyddio fformat penodol a chael ei gyflwyno ar-lein ac yn unol â therfyn amser penodol, sef o fewn 56 diwrnod i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.**

- **Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 i'w gwneud yn gymwys i wasanaethau preswyl ysgolion arbennig. Bydd hyn yn golygu y bydd y system o hysbysiadau cosb a throseddau rhagnodedig y gellir cyflwyno hysbysiad cosb ar eu cyfer yn gymwys i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig*.**

## 8. Asesu'r gystadleuaeth

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C2**: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Byddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

Yr ymateb i C6 yw 'byddai' oherwydd bydd yn ofynnol i newydd-ddyfodiaid i'r farchnad fodloni safonau uwch o ran llety fel dull o wella ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth. Dim ond pedair ysgol arbennig preswyl sy'n bodoli ar hyn o bryd a fydd yn gymwys i'w rheoleiddio fel *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*, ac at ddibenion y prawf hidlo mae hyn yn golygu bod cyfran dau gwmni o'r farchnad yn cyfateb i 50%. Nid ydym o'r farn bod angen cynnal asesiad o'r gystadleuaeth ar gyfer y Rheoliad hwn gan na fydd yn cael effaith andwyol ar gystadleuaeth nac yn effeithio ar y busnes na'r trydydd sector mewn unrhyw ffordd sylweddol.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

Bydd AGC yn monitro'r gwaith o gyflwyno'r Rheoliadau hyn ar ôl iddynt ddod i rym ar 29 Chwefror 2024.